

Arloesi



Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Prosiect hyfywedd datgarboneiddio Smart Cymru a chynllun cynhyrchiant Torfaen

Cwmni ym Mhont-y-pŵl yn defnyddio cyllid Arloesi
Llywodraeth Cymru i osod cynaliadwyedd wrth galon
eu busnes beics.



Mae beics Frog yn cael eu gwerthu trwy siopau beics annibynnol mewn dros 60 o wledydd ym mhedwar
ban y byd.

Mae Frog Bikes Manufacturing Ltd, sy'n creu beiciau ysgafn
a fforddiadwy i blant, wedi cael gwerth £75k o gyllid gan
Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r cwmni i gyflawni ei
ymrwymiad i leihau ei allyriannau carbon.



Dechreuodd y cwmni weithio gyda thîm Arloesi Llywodraeth Cymru yn 2017, ond ddechrau 2020 troesant at y tîm am gymorth i wireddu eu dyhead hirdymor i symud y broses o adeiladu fframiau'r beics, gan ddefnyddio deunyddiau wedi eu hailgylchu lle bo modd, i'r DU, a chyfyngu ar eu hól troed carbon.

Ar hyn o bryd, mae eu fframiau'n cael eu gweithgynhyrchu yn Asia gan ddefnyddio alwminiwm newydd, cyn cael eu peintio a'u cludo i'r ffatri ym Mamheilad, Pont-y-pŵl, lle gosodir y cydrannau eraill sy'n cael eu prynu i mewn, fel brêcs, gêrs, cadwyni, seddi a bariau llywio.

Diolch i gyllid Smart Cymru Llywodraeth Cymru, mae Frog Bikes wedi gallu cyflogi arbenigydd pwrpasol i arwain eu prosiect hyfywedd datgarboneiddio er mwyn helpu i ddod o hyd i ffyrdd o ymestyn oes ddefnyddiol eu beics a'u cydrannau. Mae hynny'n cynnwys cynyddu nifer y troeon y gellir defnyddio pob beic, aildefnyddio ac ail-weithgynhyrchu cydrannau er mwyn ymestyn eu hoes, ac yn y pen-draw, ailgylchu'r deunyddiau pan fydd pob beic yn cyrraedd diwedd ei oes weithredol.

Yn rhan o'r prosiect, lansiodd y cwmni gynllun peilot profion MOT yn 2021 er mwyn cynnig 'archwiliad iechyd' i hen feics Frog mewn ymdrech i helpu i gadw beics mewn gweithrediad yn hirach. Mae'r archwiliadau MOT yn chwilio am ddifrod a thraul ac am unrhyw waith trwsio neu addasu sydd ei angen ar 20 o bwyntiau diogelwch allweddol ar draws y beic er mwyn cadw plant yn ddiogel wrth feicio. Cyflwynwyd y cynllun mewn tair siop beics i gychwyn, gyda'r gobaith o ehangu'r peth ymhellach.

Mae dyluniad arloesol a sylw i fanion yn golygu bod beics ysgafn Frog yn gyffyrddus i blant a'u bod yn cael eu hadeiladu i bara.



Adeiladodd y llinell gynhyrchu ym Mhont-y-pŵl dros 65,000 o feics y llynedd.

Daw'r newidiadau sydd wedi cael eu hwyluso gan brosiect hyfywedd datgarboneiddio Smart Cymru ag arbedion sylweddol i'r cwmni o ran carbon am y bydd yn defnyddio llai o ddeunyddiau newydd (yn enwedig alwminiwm) yn y gadwyn gyflenwi, a thrwy leihau'r pellter y mae deunyddiau'n gorfod teithio ar draws y byd.

Diolch i gyllid Llywodraeth Cymru, mae Frog Bikes wedi gallu gosod cynaliadwyedd wrth galon y busnes a chyfrannu at lesiant amgylcheddol Cymru, ac mae datblygu cynaliadwy yn agwedd allweddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 hefyd.

Wrth drafod y prosiect, dywedodd Cyfarwyddwr a Chyd-sylfaenydd y cwmni, Shelley Lawson: "Rhoddodd y cyllid Arloesi gyfle i ni gyflogi aelod pwrpasol o'r tîm i roi hwb teg i'r prosiect ddatgarboneiddio.

Rydyn ni wedi ymrwymo i leihau ein hallyriannau, a diolch i'r sgiliau ychwanegol yma yn y busnes, rydyn ni bellach yn hyderus y gallwn gyrraedd sero net erbyn 2050.

"Rydyn ni'n gweithio'n barhaus i integreiddio cynaliadwyedd i bob agwedd ar y busnes, ond rydyn ni'n deall ei bod hi'n broses barhaus. Mae'r prosiect dadgarboneiddio wedi gosod cynaliadwyedd ar frig ein hagenda, ac mae'r cyfan yn destun trafodaethau yr holl ffordd i lawr i lawr y ffatri. Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, ein gobraith yw bod yn un o'r cwmnïau beics cyntaf i gynhyrchu beics gwirioneddol wyrdd."

Shelley Lawson, Cyfarwyddwr a Chyd-sylfaenydd, Frog Bikes Manufacturing Ltd

**Busnes | Business
Cymru | Wales**

Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu economaidd yw strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru. Dysgwch ragor am y cyllid a'r gefnogaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru:

03000 6 03000 | innovation@llyw.cymru
businesswales.gov.wales/innovation/cy



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**